Polisi Bioamrywiaeth Y Fynwent

Mae'r fynwent yn cefnogi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Cyngor Cymuned Llanrug a pholisi Natur Gwynedd.

Mae'r fynwent yn elwa o'r holl amrywiaeth o goed, planhigion a gwrychoedd sydd oddi fewn i'r fynwent ac ar hyd y ffiniau. yn ddiweddar mae sawl ardal fechan arall o'r fynwent wedi'i dewis er mwyn creu ac annog amgylchedd a fydd yn hybu bioamrywiaeth.

Rydym yn cadw boncyffiau'r coed sydd angen eu cwympo er mwyn denu pryfed a ffyngau a fydd, yn eu tro, yn denu bywyd gwyllt. Mae'r ardaloedd a ddewiswyd yn cael eu rheoli er mwyn hybu tyfiant blodau gwyllt a gwair a fydd yn denu ac yn cynnal ystod o fywyd gwyllt megis gloÿnnod byw, pryfed, adar a mamaliaid bach. Ni ddefnyddir plaladdwyr yn yr ardaloedd hyn. Yng ngweddill y tiroedd, rydym yn ceisio defnyddio cyn lleied â phosib o blaladdwr.

Er mwyn hybu bywyd gwyllt yn y fynwent, ble'n bosib bydd y cyngor yn

1. Plannu blodau sy'n denu ieir bach yr haf a phryfaid. Bydd y rhain hefyd yn cynhyrchu ffrwythau ar gyfer adar a bywyd gwyllt eraill. Ceidio sicrhau bod rhywbeth mewn blodau trwy'r flwyddyn.

2. Dewis planhigion, llwyni a choed sydd â'u tarddiad yn lleol ac sy'n frodorol i'r ardal.

3. Darparu digon o lefydd i greaduriaid fyw a chysgodi, fel cerrig, tomenni o goed, ceudodau neu lwyni trwchus.

4. Plannu gwrychoedd ein hunain gan ddefnyddio llwyni gwrych sy'n frodorol i'r ardal neu gorchuddiwch ffens gyda llwyni dringo sy'n cynhyrchu digon o ffrwythau.

5. Defnyddio fin compost i wneud eich compost eich hun.

6. Gosod bwrdd adar, bath adar, bocs nythu, bocs ystlumod neu dŷ draenogod.

7. Peidio â defnyddio plaladdwyr – bydd y cyngor yn ymchwilio am ffyrdd naturiol i gadw chwyn o dan reolaeth.

8. Plannu coed sydd yn frodorol i'r ardal

9. Gadael iorwg i dyfu - mae'n cynnig cysgod ar gyfer adar, neithdar yn y gaeaf a ffrwythau ar ddechrau'r gwanwyn a thrwy hynny ddarparu ffynhonnell fwyd gwerthfawr i fywyd gwyllt.

10. Peidio caniatáu unrhyw beth plastig yn y fynwent

11. Bydd y cyngor yn cario allan ymgynghoriad ar ddefnydd o flodau plastig yn y fynwent.

Arwyddwyd:

Cynghorydd Philip Roberts (Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent)

Arwyddwyd:

Cynghorydd Rhys Parry (Cadeirydd y Cyngor)

Arwyddwyd:

Meirion Jones (Clerc a Swyddog Priodol)

Mabwysiadwyd y polisi hwn gan Pwyllgor y Fynwent 4 o Dachwedd 2025 a gan y cyngor llawn ar 18 o Dachwedd 2025